**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2006 Rhif 2799 (Cy.238)

# PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

### DIWYDIANT PYSGOD MÔR

# Cynllun Cychod Pysgota (Dyfeisiau Olrhain Drwy Loeren) (Cymru) 2006

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Cynllun)*

Mae'r Cynllun hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer ariannu dyfeisiau olrhain drwy loeren ar gychod pysgota a weinyddir yng Nghymru a'r rheini'n ddyfeisiau y mae'n ofynnol eu cael ar fwrdd cychod pysgota sydd dros 15 metr o hyd, o ganlyniad i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2244/2003 sy'n gosod darpariaethau manwl ynghylch Systemau Monitro Llongau ar sail lloeren. Ym mharagraff 3 gosodir y meini prawf cymhwyster ar gyfer y Cynllun ac ym mharagraff 4 ceir manylion am y dull o geisio am gyllid o dan y Cynllun. Mae paragraff 5 yn ymdrin â rhoi cymeradwyaeth i'r cyfryw geisiadau. Ym mharagraff 6 gwneir darpariaeth ar gyfer y taliad o dan y Cynllun a nodir hefyd o dan ba amgylchiadau na roddir taliadau i geiswyr llwyddiannus. Ym mharagraff 8 nodir beth yw pwerau swyddog awdurdodedig ac ym mharagraff 7 fe'i gwneir yn ofynnol i unrhyw geisydd neu i unrhyw gyflogai unrhyw ceisydd gynorthwyo swyddog awdurdodedig. Mae paragraff 9 yn ymdrin â dirymu cymeradwyaeth i gais ac yn nodi amodau a chanlyniadau dirymu ac mae paragraff 10 yn ymdrin â chyfraddau llog pan adenillir symiau.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2006 No. 2799 (W.238)

# SEA FISHERIES, WALES

### SEA FISH INDUSTRY

# The Fishing Boats (Satellite-Tracking Devices) (Wales) Scheme 2006

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Scheme)*

This Scheme makes provision for funding satellite-tracking devices on fishing boats which are administered in Wales and which are required on board fishing boats over 15 metres as a result of Commission Regulation (EC) No. 2244/2003 laying down detailed provisions regarding satellite-based Vessel Monitoring Systems. Paragraph 3 sets out the eligibility criteria for the Scheme and paragraph 4 gives details of the method of applying for funding under the Scheme. Paragraph 5 deals with the approval of such applications. Paragraph 6 makes provision for the payment under the Scheme and also sets out the circumstances in which payments will not be made to successful applicants. Paragraph 8 sets out the powers of an authorised officer and paragraph 7 requires any applicant or any employee of any applicant to assist an authorised officer. Paragraph 9 deals with the revocation of approval of an application and sets out the conditions and consequences of revocation and paragraph 10 deals with rates of interest where sums are recovered.

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2006 Rhif 2799 (Cy.238)

## PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

### DIWYDIANT PYSGOD MÔR

## Cynllun Cychod Pysgota (Dyfeisiau Olrhain Drwy Loeren) (Cymru) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *18 Hydref 2006* |
| *Yn dod i rym* | *20 Hydref 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 15 o Ddeddf Pysgodfeydd 1981(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**), yn gwneud y Cynllun canlynol gyda chymeradwyaeth y Trysorlys:

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1**.-(1) Enw'r Cynllun hwn yw Cynllun Cychod Pysgota (Dyfeisiau Olrhain Drwy Loeren) (Cymru) 2006 a daw i rym ar 20 Hydref 2006.

(2) Mae'r Cynllun hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2**.-(1) Yn y Cynllun hwn-

ystyr "cais" ("*application*") yw cais am grant o dan y Cynllun hwn ac mae "ceisydd" ("*applicant*") i'w ddehongli'n unol â hynny;

ystyr "cymeradwyaeth" ("*approval*") yw cymeradwyaeth i gais;

(**1**) 1981 p.29. *Gweler* adran 18(1) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981 i gael diffiniad o "the Ministers" sy'n berthnasol at ddibenion y Cynllun hwn. Diwygiwyd adrannau 15(2) a 18(1) gan Orchymyn Deddf yr Alban 1998 (Addasiadau Canlyniadol) (Rhif 2) 1999 (O.S. 1999/1820) Atodlen 2, paragraff 68(1), (2) a (3).

(**2**) Yn rhinwedd erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd y swyddogaethau sy'n arferadwy o dan adran 15 o Ddeddf 1981 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2006 No. 2799 (W.238)

## SEA FISHERIES, WALES

### SEA FISH INDUSTRY

## The Fishing Boats (Satellite-Tracking Devices) (Wales) Scheme 2006

| | |
|---|---|
| *Made* | *18 October 2006* |
| *Coming into force* | *20 October 2006* |

The National Assembly for Wales in exercise of the powers conferred by section 15 of the Fisheries Act 1981(**1**) and now vested in it(**2**), makes the following Scheme with the approval of the Treasury:

**Title, application and commencement**

**1**.-(1) The title of this Scheme is the Fishing Boats (Satellite-Tracking Devices) (Wales) Scheme 2006 and it comes into force on 20 October 2006.

(2) This Scheme applies in relation to Wales.

**Interpretation**

**2**.-(1) In this Scheme-

"application" ("*cais*") means an application for grant under this Scheme and "applicant" ("*ceisydd*") is to be construed accordingly;

"approval" ("*cymeradwyaeth*") means an approval of an application;

(**1**) 1981 c.29. *See* section 18(1) of the Fisheries Act 1981 for a definition of "the Ministers" relevant for the purposes of this Scheme. Sections 15(2) and 18(1) were amended by the Scotland Act 1998 (Consequential Modifications) (No.2) Order 1999 (S.I. 1999/1820) Schedule 2, paragraph 68(1), (2) and (3).

(**2**) By virtue of article 2(a) of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) the functions exercisable under section 15 of the 1981 Act were transferred to the National Assembly for Wales.

mae i "Cymru" yr ystyr a roddir i "*Wales*" yn adran 155(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**);

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "cwch pysgota Cymreig" ("*Welsh fishing boat*") yw cwch pysgota-

(a) sydd wedi'i gofrestru yn y Deyrnas Unedig o dan Ran II o Ddeddf Llongau Masnachol 1995(**2**),

(b) neu-

(i) sydd o dan berchenogaeth lwyr neu rannol personau sy'n gymwys i berchenogi llongau Prydeinig at ddibenion y rhan honno o'r Ddeddf honno, ond

(ii) nad yw'n gwch sydd, yn unig o ganlyniad i gymhwyso iddo adran 1(1)(c) o'r Ddeddf honno yn rhinwedd ei gofrestru o dan ddeddf unrhyw un o Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, yn cyfrif fel llong Brydeinig at ddibenion y Ddeddf honno;

ac y mae ei borthladd gweinyddu yng Nghymru ar y dyddiad cymhwyso;

ystyr "darparwr y Cynulliad" ("*the Assembly provider*") yw darparwr a gosodwr dyfeisiau olrhain drwy loeren a ddewisir gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion y Rheoliad;

mae i "dyfais olrhain drwy loeren" yr ystyr sydd i "*satellite-tracking device*" yn y Rheoliad;

ystyr "person perthnasol" ("*relevant person*") mewn perthynas â chwch pysgota, yw ei berchennog, ei siartrwr (os oes un), neu ei feistr neu gynrychiolydd unrhyw un ohonynt;

ystyr "porthladd gweinyddu" ("*port of administration*") yw'r porthladd y dyroddir ohono'r drwydded a roddir o ran cwch pysgota o dan adran 4 o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(**3**);

ystyr "y Rheoliad"("*the Regulation*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2244/2003 sy'n gosod darpariaethau manwl ynghylch Systemau Monitro Llongau ar sail lloeren(**4**); ac

ystyr "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*") yw unrhyw swyddog a awdurdodir yn ysgrifenedig gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion y Cynllun hwn.

(**1**) 1998 p.38.

(**2**) 1995 p.21.

(**3**) 1967 p.84.

(**4**) OJ Rhif L333, 20.12.2003, t.17.

"the Assembly provider" ("*darparwr y Cynulliad*") means the provider and installer of satellite-tracking devices selected by the National Assembly for the purposes of the Regulation;

"authorised officer" ("*swyddog awdurdodedig*") means any officer authorised in writing by the National Assembly for the purposes of this Scheme;

"National Assembly" ("*Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

"port of administration" ("*porthladd gweinyddu*") means the port from which the licence granted in respect of a fishing boat under section 4 of the Sea Fish (Conservation) Act 1967(**1**) is issued;

"the Regulation" ("*y Rheoliad*") means Commission Regulation (EC) No. 2244/2003 laying down detailed provisions regarding satellite-based Vessel Monitoring Systems(**2**);

"relevant person" ("*person perthnasol*"), in relation to a fishing boat, means its owner, charterer (if any), or master or the representative of any of them;

"satellite-tracking device" ("*dyfais olrhain drwy loeren*") has the same meaning as in the Regulation;

"Wales" ("*Cymru*") has the same meaning as in section 155(1) and (2) of the Government of Wales Act 1998(**3**); and

"Welsh fishing boat" ("*cwch pysgota Cymreig*") means a fishing boat which-

(a) is registered in the United Kingdom under Part II of the Merchant Shipping Act 1995(**4**),

(b) or-

(i) is owned wholly or partly by persons qualified to own British ships for the purposes of that Part of that Act, but

(ii) is not a boat which counts as a British ship for the purposes of that Act solely as a result of the application of section 1(1)(c) of that Act to it by virtue of registration under the law of any of the Channel Islands or of the Isle of Man;

and has its port of administration in Wales at the date of application.

(**1**) 1967 c.84.

(**2**) OJ No. L333, 20.12.2003, p.17.

(**3**) 1998 c.38.

(**4**) 1995 c.21.

(2) Mae unrhyw rwymedigaeth sydd ar y Cynulliad Cenedlaethol i gyhoeddi deunydd o dan y Cynllun hwn yn rhwymedigaeth i sicrhau bod y deunydd ar gael mewn dull a fydd, ym marn y Cynulliad Cenedlaethol, yn ei gwneud yn rhesymol debygol y bydd y deunydd yn cael ei weld gan y rhai y gallai'r Cynllun hwn fod yn gymwys iddynt, ac mae cyhoeddi'r deunydd ymlaen llaw a chyn i'r Cynllun ddod i rym i'w drin at ddibenion y Cynllun hwn fel pe bai wedi'i gyflawni o dan y Cynllun.

**Cymhwyster**

**3**.-(1) Caiff unrhyw berson sy'n berson perthnasol mewn perthynas â chwch pysgota Cymreig y mae'r Rheoliad yn gymwys iddo wneud cais i'r Cynulliad Cenedlaethol am grant o ran y cwch hwnnw-

(a) os darparwyd ac y gosodwyd ar gyfer y person hwnnw gan ddarparwr y Cynulliad ddyfais olrhain drwy loeren; a

(b) os yw'r person yn ymgymryd â chydymffurfio ag unrhyw amodau eraill a gyhoeddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ac sy'n ymwneud â'r Cynllun hwn.

(2) Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi hysbysiad yn pennu darparwr y Cynulliad.

**Ceisiadau**

**4**.-(1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol, o bryd i'w gilydd, gyhoeddi gwahoddiad am geisiadau a phan fydd yn gwneud hynny bydd darpariaethau canlynol y paragraff hwn yn gymwys.

(2) Rhaid i gais gael ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol fel a bennir yn y gwahoddiad ar neu cyn y dyddiad cau er mwyn i'r cais gael ei ystyried ar gyfer ei gymeradwyo ac eithrio pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol yn fodlon-

(a) bod amgylchiadau arbennig y ceisydd yn ei gwneud yn afresymol i ddisgwyl bod ei gais yn cael ei gyflwyno erbyn y dyddiad cau, a

(b) bod y dyddiad erbyn pryd y cyflwynir y cais mor gynnar ag y gellir yn rhesymol ei ddisgwyl, yn yr amgylchiadau hynny.

(3) Yn y Cynllun hwn ystyr "y dyddiad cau" ("*the closing date*") yw'r cyfryw ddyddiad a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan y Cynulliad Cenedlaethol pryd neu cyn pryd y mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau.

(4) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol wrthod unrhyw gais sy'n ymwneud â chwch pysgota os yw o'r farn bod porthladd gweinyddu'r cwch pysgota wedi'i newid ac mai prif ddiben ei newid oedd gwneud y cwch yn gymwys i gais gael ei wneud mewn cysylltiad ag ef.

(2) Any obligation of the National Assembly to publish material under this Scheme means an obligation to make it available in a manner in which the National Assembly considers that the material is reasonably likely to be seen by those to whom this Scheme may apply, and publication in anticipation of this Scheme is to be treated for the purposes of this Scheme as having been carried out under it.

**Eligibility**

**3**.-(1) Any person who is a relevant person in relation to a Welsh fishing boat to which the Regulation applies may make an application in respect of that vessel for a grant to the National Assembly if that person-

(a) has had a satellite-tracking device provided and installed by the Assembly provider; and

(b) undertakes to comply with any other conditions published by the National Assembly relating to this Scheme.

(2) The National Assembly will publish a notice specifying the Assembly provider.

**Applications**

**4**.-(1) The National Assembly may from time to time publish an invitation for applications and where it does so the following provisions of this paragraph apply.

(2) An application must be lodged with the National Assembly as specified in the invitation on or before the closing date in order to be considered for approval except where the National Assembly is satisfied that-

(a) the particular circumstances of the applicant render it unreasonable to expect their application to be lodged by the closing date, and

(b) the date by which the application is lodged is as early as, in those circumstances, can reasonably be expected.

(3) In this Scheme "the closing date" ("*y dyddiad cau*") means such date as the National Assembly may from time to time publish as the date on or before which applications must be lodged.

(4) The National Assembly must reject any application relating to a fishing boat if it considers that the port of administration for the fishing boat has been changed for the primary purpose of eligibility to make an application.

(5) Yn sgil rhoi cymeradwyaeth, caiff y Cynulliad Cenedlaethol roi grant sy'n gyfwerth â chyfanswm y canlynol, fel y cytunwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol a'r ceisydd llwyddiannus-

(a) pris y ddyfais olrhain drwy loeren;

(b) costau gosod y ddyfais olrhain drwy loeren ar fwrdd y cwch y cyflwynwyd y cais mewn cysylltiad ag ef, ac

(c) pris gwarant tair blynedd ar gyfer y ddyfais olrhain drwy loeren,

a fydd yn daladwy yn unol â darpariaethau canlynol y Cynllun hwn.

(6) Rhaid i'r costau a bennir yn is-baragraff (5)(b) beidio â chynnwys unrhyw gost a dynnir yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn cysylltiad â chuddio'r ddyfais olrhain drwy loeren, y ceblau a'r gwifrau sy'n gysylltiedig â hi, neu unrhyw ddeunyddiau neu gyfarpar cysylltiedig arall, a hynny at ddibenion cosmetig.

**Cymeradwyo ceisiadau**

**5**.-(1) Hysbysir pob ceisydd llwyddiannus yn ysgrifenedig gan y Cynulliad Cenedlaethol o'r gymeradwyaeth mewn cysylltiad â chwch pysgota'r ceisydd ac o unrhyw amodau y mae'n rhaid i'r ceisydd gydymffurfio â hwy.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), bydd cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol i'r cwch pysgota o dan sylw yn dod i ben os bydd y ceisydd llwyddiannus yn methu cydymffurfio ag unrhyw amodau a osodir o dan baragraff 3(1) neu baragraff 5(1).

(3) Os bydd y ceisydd llwyddiannus yn hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o fewn amser rhesymol o resymau am y methiant hwnnw (neu, yn ôl y digwydd, resymau am rag-weld y methiant hwnnw) caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddiwygio'r amodau a osodir o dan baragraff 3(1) neu baragraff 5(1).

**Taliadau o dan y Cynllun**

**6**.-(1) Cyn gynted ag y bydd y cais wedi'i gymeradwyo ac y bydd y ceisydd llwyddiannus wedi cydymffurfio â'r holl amodau a osodir o dan baragraffau 3(1) a 5(1), bydd y Cynulliad Cenedlaethol, yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), yn talu swm y pris y cytunwyd arno o dan baragraff 4(5) i'r ceisydd llwyddiannus.

(2) Ni wneir unrhyw daliad onid yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn fodlon bod y ddyfais olrhain drwy loeren wedi'i darparu ac yr ymgymerwyd â'i gosod yn unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt gyda darparwr y Cynulliad.

(5) Following approval by the National Assembly it may make a grant which is equal to the amount, as agreed between it and the successful applicant, of-

(a) the price of the satellite-tracking device;

(b) the installation costs of the satellite-tracking device on board the vessel in respect of which the application was lodged, and

(c) the price of a three year warranty for the installed satellite-tracking device,

which will be payable in accordance with the following provisions of this Scheme.

(6) The costs specified in sub-paragraph (5)(b) must not include any cost wholly or partly incurred in respect of the concealment of the satellite-tracking device, its associated cables and wires, or any other associated materials or equipment, for cosmetic purposes.

**Approval of applications**

**5**.-(1) Each successful applicant will be notified by the National Assembly in writing of the approval relating to the applicant's fishing boat and any conditions with which the applicant must comply.

(2) Subject to sub-paragraph (3), the approval of the National Assembly will terminate for the fishing boat in question if the successful applicant fails to comply with any conditions imposed under paragraph 3(1) or paragraph 5(1).

(3) If the successful applicant notifies the National Assembly within a reasonable time of reasons for that failure (or, as the case may be, for anticipating that failure) the National Assembly may amend the conditions imposed under paragraph 3(1) or paragraph 5(1).

**Payments under the Scheme**

**6**.-(1) Once the application has been approved and the successful applicant has complied with all conditions imposed under paragraphs 3(1) and 5(1), the National Assembly will, subject to sub-paragraph (2), pay the amount of the price agreed under paragraph 4(5) to the successful applicant.

(2) No payment will be made unless the National Assembly is satisfied that the satellite-tracking device has been provided and the installation undertaken in accordance with procedures agreed by it with the Assembly provider.

**Cymorth i swyddogion awdurdodedig**

**7**. Rhaid i unrhyw geisydd neu unrhyw gyflogai neu asiant unrhyw geisydd roi i swyddog awdurdodedig y cyfryw gymorth ag y byddo'n rhesymol i'r swyddog ofyn amdano er mwyn iddo arfer y pŵer a roddir i'r swyddog gan baragraff 8.

**Pwerau swyddogion awdurdodedig**

**8**.-(1) Caiff swyddog awdurdodedig, ar bob adeg resymol, ac o gyflwyno, os gofynnir iddo wneud hynny, ddogfen a ddilyswyd yn briodol ac sy'n dangos awdurdod y swyddog, arfer y pwerau a bennir yn y paragraff hwn at ddiben sicrhau -

(a) p'un a oes gan berson hawl i wneud cais o dan baragraff 3 ac i ba raddau y mae ganddo hawl;

(b) p'un a gydymffurfiwyd ag amodau o dan baragraffau 3(1) a 5(1) ac i ba raddau y cydymffurfiwyd â hwy;

(c) p'un a gafodd tramgwydd o dan adran 17 o Ddeddf Pysgodfeydd 1981 ei gyflawni, neu a yw'n cael ei gyflawni, ac i ba raddau, ac

(ch) p'un a yw'r ddyfais olrhain drwy loeren yn gweithio ac i ba raddau.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3) caiff swyddog awdurdodedig fynd i mewn i unrhyw fangre berthnasol.

(3) Dim ond pan fydd rhybudd rhesymol o'r bwriad i arfer y pŵer wedi'i roi i holl breswylwyr yr anhedd-dy hwnnw y caniateir arfer y pŵer a roddir gan is-baragraff (2) mewn perthynas â mangre a ddefnyddir fel anhedd-dy.

(4) Caiff unrhyw swyddog awdurdodedig sydd wedi mynd i mewn i unrhyw fangre yn unol ag is-baragraff (2) arolygu'r fangre honno ac unrhyw ddogfennau yn y fangre honno sy'n ddogfennau perthnasol, neu y mae'n rhesymol i swyddog fod o'r farn eu bod yn ddogfennau perthnasol.

(5) Caiff swyddog awdurdodedig sy'n mynd i mewn i fangre yn rhinwedd y paragraff hwn fynd â'r cyfryw berson arall y mae'r swyddog o'r farn ei fod yn angenrheidiol gydag ef ac mae is-baragraffau (2), (4), (6) a (7) yn gymwys mewn perthynas â'r cyfryw berson arall pan fydd hwnnw'n gweithredu o dan gyfarwyddyd y swyddog fel pe bai ef yn swyddog awdurdodedig.

(6) Caiff swyddog awdurdodedig-

(a) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n geisydd neu'n gyflogai neu'n asiant ceisydd gyflwyno unrhyw ddogfennau perthnasol a chyflenwi'r cyfryw wybodaeth ychwanegol ag y byddo'n rhesymol i'r swyddog ofyn amdanynt neu amdani, sydd ym meddiant y person neu o dan ei reolaeth ac sy'n ymwneud â'r cais;

**Assistance to authorised officers**

**7**. Any applicant or any employee or agent of any applicant must give to an authorised officer such assistance as the officer may reasonably request to exercise the power conferred on the officer by paragraph 8.

**Powers of authorised officers**

**8**.-(1) An authorised officer at all reasonable hours and on producing, if required to do so, some duly authenticated document showing the authority of the officer, may exercise the powers specified in this paragraph for the purpose of ascertaining whether and to what extent -

(a) a person is entitled to make an application under paragraph 3;

(b) conditions under paragraphs 3(1) and 5(1) have been complied with;

(c) an offence under section 17 of the Fisheries Act 1981 has been, or is being, committed, and

(d) the satellite-tracking device is functioning.

(2) Subject to sub-paragraph (3) an authorised officer may enter upon any relevant premises.

(3) The power conferred by sub-paragraph (2) may be exercised in relation to premises used as a dwelling house only where reasonable notice of the intended exercise of the power has been given to all residents of that dwelling house.

(4) Any authorised officer who has entered any premises in accordance with sub-paragraph (2) may inspect those premises and any documents on those premises which are, or which such officer has reasonable cause to believe are, relevant documents.

(5) An authorised officer entering premises by virtue of this paragraph may be accompanied by such other person as the officer considers necessary and sub-paragraphs (2), (4), (6) and (7) apply in relation to such other person when acting under the instructions of the officer as if he or she were an authorised officer.

(6) An authorised officer may-

(a) require any person who is an applicant or is an employee or agent of an applicant to produce any relevant documents and to supply such additional information in possession of the person or under his or her control relating to the application as the officer may reasonably request;

(b) arolygu unrhyw ddogfennau o'r fath ac, os cedwir y cyfryw ddogfennau drwy gyfrwng cyfrifiadur, gael mynd at unrhyw gyfrifiadur a chyfarpar neu ddeunydd cysylltiedig a ddefnyddiwyd mewn cysylltiad â'r dogfennau hynny i arolygu a gwirio eu gweithrediaeth;

(c) ei gwneud yn ofynnol i gopïau o unrhyw ddogfennau perthnasol, neu ddetholiadau ohonynt, gael eu cyflwyno, ac

(ch) arolygu unrhyw gyfarpar ar y cwch pysgota y gwnaed y cais mewn cysylltiad ag ef, gan gynnwys y ddyfais olrhain drwy loeren, a mynd â'r cyfarpar i ffwrdd i'w arolygu ymhellach.

(7) Ni fydd swyddog awdurdodedig yn atebol mewn unrhyw achos sifil neu droseddol am unrhyw beth a wneir wrth i'r swyddog, yn honedig, arfer y pwerau a roddwyd iddo gan y Cynllun hwn os yw'r llys sy'n gwrando'r cyfryw achos yn fodlon-

(a) bod y weithred wedi ei gwneud mewn modd didwyll;

(b) bod seiliau rhesymol dros ei gwneud, ac

(c) ei bod wedi ei gwneud gyda sgil a gofal rhesymol.

(8) Yn y paragraff hwn-

ystyr "dogfennau perthnasol" ("*relevant documents*") yw unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â'r cwch pysgota y gwnaed cais mewn cysylltiad ag ef,

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw gwch pysgota neu gyfrwng cludo arall, ac

ystyr "mangre berthnasol" ("*relevant premises*") yw'r cwch pysgota y gwnaed cais mewn cysylltiad ag ef ac unrhyw fangre lle y cedwir y dogfennau perthnasol neu lle y mae'n rhesymol i swyddog awdurdodedig fod o'r farn y byddo'r cyfryw ddogfennau'n cael eu cadw.

**Dirymu cymeradwyaeth**

**9**.-(1) Ar unrhyw adeg ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol gymeradwyo cais o ran unrhyw gwch pysgota, os ymddengys iddo-

(a) na chydymffurfiwyd ag unrhyw un neu rai o'r amodau a osodir o dan baragraffau 3(1) a 5(1);

(b) bod person perthnasol, mewn perthynas â chwch pysgota-

(i) ac yntau'n honni ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw un neu rai o ddarpariaethau'r Cynllun, wedi rhoi gwybodaeth neu wedi cyflwyno dogfen a'i fod yn gwybod bod yr wybodaeth neu'r ddogfen yn anwir mewn manylyn perthnasol, neu

(b) inspect any such documents and, where such documents are kept by means of a computer, have access to, and inspect and check the operation of, any computer and associated apparatus or material which has been used in connection with those documents;

(c) require that copies of, or extracts from, any relevant documents be produced, and

(d) inspect and remove for the purposes of further inspection any equipment on the fishing boat in respect of which an application has been made, including the satellite-tracking device.

(7) An authorised officer will not be liable to civil or criminal proceedings for anything done in purported exercise of the powers conferred on the officer by this Scheme if the court hearing such proceedings is satisfied that-

(a) the act was done in good faith;

(b) that there were reasonable grounds for doing it, and

(c) that it was done with reasonable skill and care.

(8) In this paragraph-

"premises" ("*mangre*") includes any fishing boat or other vehicle;

"relevant documents" ("*dogfennau perthnasol*") means any documents relating to the fishing boat in respect of which an application has been made, and

"relevant premises" ("*mangre berthnasol*") means the fishing boat in respect of which an application has been made and any premises in which the relevant documents are retained or in which an authorised officer has reasonable grounds to believe such documents may be retained.

**Revocation of approval**

**9**.-(1) If at any time after the National Assembly has approved an application in respect of any fishing boat it appears to it that-

(a) any of the conditions imposed under paragraphs 3(1) and 5(1) have not been complied with;

(b) a relevant person, in relation to the fishing boat-

(i) has furnished information or produced a document in purported compliance with any provision of this Scheme which he or she knows to be false in a material particular, or

(ii) wedi bod yn ddi-hid yn gwneud datganiad sy'n anwir mewn manylyn perthnasol;

(c) bod y person perthnasol neu ei gyflogai neu ei asiant wedi methu cydymffurfio â pharagraff 7;

caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddirymu'r gymeradwyaeth neu ddal yn ôl unrhyw ran o'r taliad mewn perthynas â'r cais.

(2) Os dirymir cymeradwyaeth o dan is-baragraff (1) ar ôl i unrhyw daliad gael ei wneud o dan y Cynllun hwn, caiff y Cynulliad Cenedlaethol adennill ar gais oddi wrth y ceisydd swm sy'n gyfwerth â'r cyfan neu ag unrhyw ran o'r cyfryw daliad.

**Llog**

**10**.-(1) Pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â pharagraff 9(2), yn penderfynu adennill swm ar gais, caiff hefyd adennill llog ar y swm hwnnw ar sail ddyddiol ac ar gyfradd o 1% yn uwch na'r LIBOR am y cyfnod yn cychwyn ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y talwyd y swm ac yn diwedd ar y diwrnod y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei adennill.

(2) Yn y paragraff hwn ystyr "LIBOR", mewn perthynas ag unrhyw ddiwrnod, yw cyfradd sterling dri-misol Llundain a gynigir rhwng banciau, ac sydd mewn grym ar y diwrnod hwnnw, wedi'i thalgrynnu os bydd angen i ddau le degol.

(3) Mewn unrhyw achos ar gyfer adennill o dan y Cynllun hwn, bydd tystysgrif a ddyroddir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn datgan beth yw'r LIBOR sy'n gymwys ar gyfer unrhyw ddiwrnod yn dystiolaeth ddigamsyniol o'r LIBOR o dan sylw os yw'r dystysgrif hefyd yn datgan bod Banc Lloegr wedi hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o'r LIBOR o dan sylw.

(ii) has recklessly made a statement which is false in a material particular;

(c) the relevant person or his or her employee or agent has failed to comply with paragraph 7;

the National Assembly may revoke the approval or withhold any part of the payment in respect of the application.

(2) Where approval is revoked under sub-paragraph (1) after any payment to the applicant under this Scheme has been made, the National Assembly may recover on demand from the applicant an amount equal to the whole or any part of any such payment.

**Interest**

**10**.-(1) Where the National Assembly decides to recover on demand an amount in accordance with paragraph 9(2), it may also recover interest on that amount on a daily basis at the rate of 1% above the LIBOR for the period beginning with the day following that on which the amount was paid and ending on the day on which the National Assembly recovers it.

(2) In this paragraph "LIBOR", in relation to any day, means the sterling three month London interbank offered rate in force for that day rounded if necessary to two decimal places.

(3) In any proceedings for recovery under this Scheme, a certificate issued by the National Assembly stating the LIBOR applicable for any day is conclusive evidence of the LIBOR in question if the certificate also states that the Bank of England notified the National Assembly of the LIBOR in question.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**1**).

18 Hydref 2006

18 October 2006

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) 1998 p.38.

(**1**) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 2799 (Cy.238)

## PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

### DIWYDIANT PYSGOD MÔR

Cynllun Cychod Pysgota (Dyfeisiau Olrhain Drwy Loeren) (Cymru) 2006

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 2799 (W.238)

## SEA FISHERIES, WALES

### SEA FISH INDUSTRY

The Fishing Boats (Satellite-Tracking Devices) (Wales) Scheme 2006

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W390/10/06 ON